# EVANS, DAVID JOHN (1884 - 1965), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** David John Evans
**Dyddiad geni:** 1884
**Dyddiad marw:** 1965
**Priod:** Mary Muriel Evans (née Williams)
**Rhiant:** Ellen Evans
**Rhiant:** John Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1 Gorffennaf 1884 ym Mronfelen, Capel Seion, Ceredigion, mab John ac Ellen Evans. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Capel Seion, ysgol fwrdd Pen-llwyn, ysgol ramadeg Castellnewydd Emlyn, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth (lle graddiodd yn y celfyddydau), a'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth (lle graddiodd mewn diwinyddiaeth). Ordeiniwyd ef yn 1916, a bu'n weinidog ei fam-eglwys yng Nghapel Seion hyd ei farwolaeth. Priododd, 1943, Mary Muriel Williams, Aberystwyth. Bu farw 1 Mai 1965. Daeth i amlygrwydd yn 1926 pan gyhoeddodd lawlyfr, *Prif gymeriadau'r Hen Destament*, a wrthodwyd gan ei Gyfundeb oherwydd ei olygiadau rhyddfrydol. Yn 1935 cyhoeddodd *Hanes Capel Seion*, cyfrol ddefnyddiol iawn ym maes hanes lleol.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Who's who in the Free Churches?* (1951) (1951), 340

*Who's who in Wales* (1937), 57

*Hanes Capel Seion* (Aberystwyth 1935)

gwybodaeth gan T.J. Davies, Caerdydd


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821416


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu